Ymgynghoriad ar yr opsiynau ar gyfer diwygio cymwysterau yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yng Nghymru

CHWEFROR 2018

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn rhanddeiliaid ar yr opsiynau ar gyfer diwygio a nodwyd yn Adeiladu'r Dyfodol adroddiad Cymwysterau Cymru ar ei adolygiad o gymwysterau yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig. Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu'r opsiynau a ystyriwyd gan Cymwysterau Cymru, yn nodi'r dull a ffefrir gennym ac yn rhoi cyfle i gyrff dyfarnu a phartïon eraill sydd â diddordeb roi adborth.

Sut i ymateb

Rydym yn annog unigolion neu sefydliadau sydd â diddordeb mewn cymwysterau yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Hyd yn oed os ydych wedi cyfrannu'n helaeth at yr adolygiad ei hun, mae'n bwysig bod gennym gofnod o'ch ymateb i'n cynigion. Dylech gyflwyno eich ymateb drwy'r ddolen ganlynol erbyn 18:00 ar 13 Ebrill 2018 fan bellaf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wrth benderfynu pa gamau y bydd yn eu cymryd nesaf er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau ei adolygiad o'r sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig. Cynghorir ymatebwyr i ddarllen yr adroddiad ar yr adolygiad hwnnw, Adeiladu'r Dyfodol, sydd ar gael ar ein gwefan.

Caiff adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ei gyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru yn fuan ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
E-bost: adolygiadadeiladu@cymwysteraucymru.org

Diogelu data:
Sut y caiff y sylwadau a'r wybodaeth a roddir gennych eu defnyddio

Rydym yn gofyn am eich sylwadau a'ch barn at ddibenion cyflawni ein prif nodau o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru. Weithiau, rydym yn defnyddio adnoddau trydydd parti i gasglu adborth gan ein rhanddeiliaid. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, rydym yn defnyddio SmartSurvey. Cedwir data ar weinyddwyr SmartSurvey yn yr UE. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch bolisi preifatrwydd SmartSurvey yma https://www.smartsurvey.co.uk/privacy-policy

Byddwn yn cadw unrhyw ddata personol a gasglwyd yn ystod ymgyngoriadau yn unol â'n trefniadau cadw data.

Rhyddid Gwybodaeth

Nodwch, fel corff cyhoeddus, fod unrhyw wybodaeth ysgrifenedig a gedwir gennym (gan gynnwys ymholiadau ysgrifenedig) yn destun ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Byddwn yn ystyried y Ddeddf Diogelu Data ac, o fis Mai 2018, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, cyn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol y gofynnir amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Caiff unrhyw ymateb a anfonwch atom ei weld yn llawn gan staff Cymwysterau Cymru sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad hwn. Efallai y caiff ei weld hefyd gan aelodau eraill o staff Cymwysterau Cymru er mwyn eu helpu i gynllunio ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw'r person ac enw'r sefydliad y mae'n gweithio iddo, neu enw'r sefydliad a anfonodd yr ymateb, eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol. Rydym yn gofyn yn yr ymgynghoriad hwn a ydych yn fodlon i ni gyhoeddi eich enw ac enw'r sefydliad rydych yn gweithio iddo. Os dywedwch nad ydych am i ni gyhoeddi'r manylion hyn, byddwn yn eu golygu.

Er hynny, gallai enwau neu gyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach, ond nid ydym yn credu y byddai hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn galluogi'r cyhoedd i ofyn am gael gweld y wybodaeth sydd gan nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Cymwysterau Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi, er bod y gyfraith yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth rydym wedi'i chadw yn ôl, bydd yn rhaid i ni benderfynu p'un a ddylid ei rhyddhau ai peidio. Os oes rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw nac enw'r sefydliad y mae'n gweithio iddo, mae hynny'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried, ond gallai fod rhesymau pwysig weithiau pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw rhywun ac enw'r sefydliad y mae'n gweithio iddo, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi'r manylion hyn. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn i ni wneud penderfyniad terfynol ynghylch datgelu'r wybodaeth.

Bydd Cymwysterau Cymru yn cadw data'n electronig a chaiff eu storio'n unol â'n polisïau TGCh a'n Canllawiau ar Drafod Gwybodaeth.

Rhaglith

Ynghyd â'r ddogfen ymgynghori hon, rydym wedi cyhoeddi adroddiad ar ein hadolygiad o gymwysterau a'r system gymwysterau yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig – Adeiladu'r Dyfodol. Mae'n bwysig darllen y ddogfen honno cyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan ei bod yn nodi'r opsiynau ar gyfer gweithredu rydym yn ymgynghori yn eu cylch. Yn yr adroddiad, rydym yn nodi nifer o bryderon ynghylch cymwysterau presennol a'r system gymwysterau ac, er ein bod yn ymrwymo i gymryd nifer o gamau gweithredu yn y tymor byr, nodwn ei bod hi'n anochel, yn ein barn ni, fod proses ddiwygio o ryw fath yn digwydd yn y tymor hwy. Mae'r adroddiad yn nodi'r opsiynau ar gyfer diwygio ac maent i'w gweld yn y tabl isod:

Maes dysgu	Opsiwn	Disgrifiad lefel uchel o'r Opsiwn
A **14-16 mewn ysgolion ac 16-19 – yn bennaf ar gyfer symud ymlaen i addysg uwch**	**A1**	Parhau i **ddynodi**[1] cymwysterau presennol (a/neu gymwysterau newydd) fel rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed.
	A2	Datblygu meini prawf cymeradwyo er mwyn **cymeradwyo**[2] un neu ragor o fersiynau o'r cymwysterau hyn i'w defnyddio yng Nghymru.
B **16-19 addysg bellach amser llawn ar gyfer symud ymlaen i brentisiaethau neu gyflogaeth**[3]	**B1**	Anelu at ddynodi'r cymwysterau newydd – a ddatblygir yn Lloegr i'w defnyddio ar raglenni lefel T – i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.
	B2	Comisiynu cymwysterau Sylfaenol a Dilyniant eang newydd, â llwybrau crefft-benodol, i'w defnyddio yng Nghymru.
C **Prentisiaethau**	**C1**	Dynodi, lle y bo'n bosibl, asesiadau terfynol a ddatblygir i'w defnyddio yn Lloegr ar raglenni 'Trailblazer' a pharhau i reoleiddio cymwysterau NVQ lle mae'r rhain yn dal i gael eu cynnig.
	C2	Comisiynu cymhwyster generig, â phrofion gwybodaeth sy'n ymwneud â chrefftau penodol, i'w defnyddio ar brentisiaethau yng Nghymru, ar y cyd â phorth cyflogwr gwell. Byddai'r cymhwyster a'r porth cyflogwr gyda'i gilydd yn sicrhau bod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol craidd wedi'u cwmpasu.

[1] Rhaid i gymwysterau a ddefnyddir ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed fod naill ai'n gymwysterau 'a ddynodwyd' neu'n gymwysterau 'a gymeradwywyd' gan Cymwysterau Cymru. Pan na fyddwn wedi pennu unrhyw feini prawf cymhwyster-benodol, rydym yn dilyn proses 'ddynodi' lefel isel, sy'n cynnwys rhai gwiriadau sylfaenol. Pan fyddwn yn blaenoriaethu cymwysterau ac yn datblygu gofynion manylach, byddant yn destun proses 'gymeradwyo'.
[2] Gweler troednodyn 1 uchod.
[3] Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r cymwysterau y mae dysgwyr gallu is, yn y sector addysg bellach, yn astudio ar eu cyfer ar lefel mynediad neu lefel 1. Yn aml, prif nod y cymwysterau hyn yw sicrhau bod unigolion yn ailymgysylltu â dysgu. Mae amrywiaeth o gymwysterau generig y gellir astudio ar eu cyfer ar y lefel hon yng nghyd-destun adeiladu.

Rydym wedi gwerthuso pob un o'r opsiynau hyn ac, fel y nodwyd yn Adeiladu'r Dyfodol, yr opsiynau sy'n well gennym yw opsiynau A2, B2 a C2. Er bod potensial i fwy nag un corff dyfarnu gynnig cymwysterau ar gyfer y math hwn o ddarpariaeth o dan opsiwn A2, mae opsiynau B2 a C2 yn golygu comisiynu corff dyfarnu unigol i ddatblygu cymwysterau newydd er mwyn sicrhau mai dim ond un fersiwn gymeradwy o bob un o'r cymwysterau hynny sydd ar gael. O ganlyniad, byddai hyn yn nodi'r cymwysterau y gellid eu defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir ar gyfer adeiladu a gwasanaethau adeiladu yng Nghymru i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2020.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn i chi roi eich barn ar yr opsiynau sy'n well gennym, fel y nodir yn y ddogfen hon a'r adroddiad, ac yn rhoi rhagor o wybodaeth am ffyrdd posibl o roi'r opsiynau hynny ar waith. Rydym yn:

- amlinellu tair ffordd wahanol y gallem roi opsiwn A2 ar waith;
- amlinellu'r broses y byddai angen i ni ei dilyn os byddem am gyfyngu ar gymwysterau fel rhan o opsiynau B2 a C2;
- crynhoi'r asesiadau o effaith a gynhaliwyd gennym.

Rydym yn ymwybodol y byddai datblygu cyfres newydd o gymwysterau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru yn cynyddu nifer y gwahaniaethau rhwng y cymwysterau yr astudir ar eu cyfer yng Nghymru a'r rhai yr astudir ar eu cyfer mewn mannau eraill yn y DU, ac efallai y bydd dysgwyr sy'n astudio ar gyfer y cymwysterau yng Nghymru am chwilio am swyddi mewn mannau eraill. Wrth i ni flaenoriaethu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru, byddwn yn ystyried yr angen i sicrhau bod cymwysterau'n gludadwy.

Darllenwch y ddogfen hon a'r adroddiad yn llawn cyn ateb y cwestiynau a ofynnir ar ein ffurflen ymateb ar-lein. Er mwyn eich helpu i baratoi eich ymateb, mae'r cwestiynau yn Atodiad [3] i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen. **Nodwch y byddai'n well gennym pe byddech yn ymateb ar-lein.** Os na allwch, am ryw reswm, gyflwyno eich ymateb ar-lein, cysylltwch â ni er mwyn cytuno ar ffordd arall o gyflwyno eich ymateb. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben am 18:00 ar 13 Ebrill 2018.

Beth fyddai'r broses ar gyfer cymeradwyo'r cymwysterau y cyfeirir atynt yn opsiwn A2?

1. Os byddwn yn penderfynu defnyddio'r dull sy'n well gennym o dan opsiwn A2, y cymwysterau y byddem yn cynnig datblygu meini prawf cymeradwyo ar eu cyfer yn opsiwn A2 fyddai:

   i) Un cymhwyster lefel 1 neu 2 (neu fwy) mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed;

   ii) Un cymhwyster lefel 3 (neu fwy) mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 19 oed sy'n astudio ar gyfer cymwysterau lefel 3 eraill cyn penderfynu p'un a ddylent symud ymlaen i addysg uwch neu brentisiaeth – o bosibl mewn maes sy'n ymwneud ag adeiladu.

   Rydym yn credu bod un fersiwn neu fwy o'r mathau hyn o gymwysterau, a allai fodloni ein gofynion tebygol, ar gael eisoes i'w defnyddio yng Nghymru.

2. Mae tri llwybr posibl i gymeradwyo cymwysterau yn yr opsiwn hwn:

   i) Rhoi'r cymwysterau (yn amodol ar gytundeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg) ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a chyhoeddi meini prawf cymeradwyo. Wedyn, byddai unrhyw gorff dyfarnu cydnabyddedig yn gallu cyflwyno cymwysterau sy'n bodloni'r meini prawf cymeradwyo hyn. Byddai pob manyleb sy'n bodloni'r meini prawf yn cael ei chymeradwyo i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Byddai'r cyrff dyfarnu hynny y cafodd eu manylebau eu cymeradwyo yn cystadlu am fusnes gan ddarparwyr dysgu. Dylid nodi bod yn rhaid i bob cymhwyster cymeradwy fod ar gael i'w asesu yn Gymraeg ac yn Saesneg;

   Neu

   ii) Rhoi'r cymwysterau (yn amodol ar gytundeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg) ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a chyhoeddi meini prawf cymeradwyo. Fodd bynnag, gyda'r llwybr hwn, byddem yn cyfyngu ar y cymwysterau (yn amodol ar roi hysbysiad o fwriad i gyfyngu ac ystyried yr ymatebion iddo) er mwyn sicrhau mai dim ond un fersiwn sydd ar gael. Byddai hyn yn golygu y byddem yn cymeradwyo un fersiwn yn unig o bob cymhwyster i'w ddefnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Yn ogystal â chyhoeddi meini prawf cymeradwyo, byddem yn cyhoeddi meini prawf dethol, ac yn dewis y fanyleb orau o'r rhai hynny sy'n bodloni'r meini prawf cymeradwyo. Felly, byddai'r farchnad a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer y cymwysterau hyn yng Nghymru yn llwyr gyfyngedig i'r corff/cyrff dyfarnu â'r fanyleb lwyddiannus am gyfnod penodol, a all fod tua phum mlynedd;

   Neu

   iii) Rhoi'r cymhwyster (yn amodol ar gytundeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg) ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a chomisiynu (yn amodol ar roi hysbysiad o fwriad i gyfyngu ac ystyried yr ymatebion iddo) corff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau newydd. Byddai'r broses gomisiynu fel y nodir isod mewn perthynas ag opsiynau B2 a C2.

3. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn awyddus iawn i glywed gan gyrff dyfarnu a fyddent yn fodlon cyflwyno eu manylebau presennol (a allai gynnwys addasiadau i fodloni ein meini prawf cymeradwyo) i'w cymeradwyo yng Nghymru, heb y sicrwydd mai'r fanyleb yw'r unig opsiwn i'w ddefnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus.

Beth fyddai'r broses ar gyfer comisiynu'r cymwysterau y cyfeirir atynt yn opsiynau B2 a C2?

4. Yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig cynghori Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y dylid rhoi cymwysterau generig newydd ar gyfer dysgwyr mewn addysg bellach amser llawn ac ar gyfer prentisiaethau ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol. Yna, byddem yn comisiynu'r gwaith o ddatblygu'r cymwysterau Sylfaenol, Dilyniant a Phrentisiaeth newydd hyn mewn Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu. Byddai'r cymwysterau yn generig o ran eu cynllun ond yn cael eu cymeradwyo'n benodol er mwyn adlewyrchu'r crefftau a ddilynir gan bob dysgwr. Darllenwch yr adroddiad i gael gwybodaeth am ddiben a chynllun lefel uchel y cymwysterau hyn.

5. Byddem yn croesawu'n fawr safbwyntiau ynghylch p'un a ddylai fod un o bob cymhwyster generig (e.e. cymhwyster Sylfaenol mewn Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu – [crefft]) neu p'un a ddylid rhoi dewis o gymhwyster Adeiladu neu gymhwyster Gwasanaethau Adeiladu i ddysgwyr ar y dechrau.

6. Er mwyn comisiynu'r cymwysterau newydd hyn, byddem yn gyntaf yn cyfyngu arnynt ac yna'n comisiynu – drwy broses dendro gystadleuol – corff dyfarnu i'w datblygu. Ar ôl eu datblygu a'u cymeradwyo, y cymwysterau fyddai'r unig rai yn y maes pwnc hwn, ar lefelau 2 a 3, y gellid eu defnyddio ar gyrsiau sy'n ymwneud ag adeiladu a ariennir yn gyhoeddus neu raglenni prentisiaeth yng Nghymru am gyfnod penodol a gaiff ei benderfynu maes o law, ond a all fod tua phum mlynedd.

7. Rydym yn rhagweld y byddai'r cymwysterau newydd hyn (yn opsiynau B2 a C2), ar gyfer cyrsiau neu raglenni dysgu sy'n dechrau ym mis Medi 2020, yn disodli amrywiaeth eang o gymwysterau yr astudir ar eu cyfer ar hyn o bryd ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus (neu raglenni dysgu ac asesu) ar gyfer dysgwyr yng Nghymru,. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, Ddyfarniadau, Tystysgrifau, Tystysgrifau Estynedig, Diplomâu Rhagarweiniol, Diplomâu, Diplomâu Cyfrannol, Diplomâu Estynedig a chymwysterau NVQ ar lefelau 2 a 3 mewn Adeiladu, Gosod Brics, Gwaith Saer ac Asiedydd, Plastro, Paentio ac Addurno, Gwaith Plymwr, Gwresogi ac Awyru, Gosodiadau Trydanol, Defnyddio Peiriannau a Pheirianneg Sifil neu sy'n uniongyrchol gymaradwy â chymwysterau yn y meysydd hyn.

8. Byddai'r cymwysterau etifeddol hyn yn cael eu tynnu'n ôl yn raddol, gan sicrhau na fyddai dysgwyr sydd eisoes yn astudio ar eu cyfer dan anfantais.

9. Ni fyddai hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gymwysterau ar gyfer dysgwyr 16 oed a hŷn ar lefel 1 mewn pynciau perthynol, er y gall rhai dysgwyr a allai fel arall fod wedi dechrau eu cwrs ar lefel 1 gael eu hystyried gan ddarparwyr dysgu yn rhai sy'n gallu dechrau'r rhaglen Sylfaenol ar lefel 2.

10. Os caiff y broses gomisiynu ei hymestyn i'r cymwysterau yn opsiwn A2 hefyd, byddai'r rhain yn disodli, ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ym mis Medi 2020, unrhyw gymwysterau sy'n ymwneud ag adeiladu a gwasanaethau adeiladu yr astudir ar eu cyfer ar hyn o bryd ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed a chymwysterau eraill nad ydynt yn seiliedig ar gymhwysedd yr astudir ar eu cyfer ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer ddysgwyr rhwng 16 a 19 oed lle mai'r prif nod yw symud ymlaen i addysg uwch.

Beth yw ystyr ‘cyfyngu’?

11. Mae Deddf Cymwysterau Cymru (‘y Ddeddf’) yn ein galluogi i gyfyngu ar nifer y fersiynau o gymwysterau blaenoriaethol y byddwn yn eu cymeradwyo. Dim ond cymwysterau a gymeradwywyd (neu ‘a ddynodwyd’) gan Cymwysterau Cymru sy’n gymwys i’w defnyddio ar gyrsiau neu raglenni dysgu (megis prentisiaethau) a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed yng Nghymru.

12. Os penderfynwn fod angen i ni osgoi anghysondebau rhwng cymwysterau a/neu os ydym am i un corff dyfarnu ddatblygu a/neu ddyfarnu cymhwyster newydd, gallwn, gan ddefnyddio’r pwerau a roddwyd i ni yn y Ddeddf, benderfynu y byddwn yn ‘cyfyngu’ ein cymeradwyaeth i un fersiwn yn unig o gymhwyster a enwir. Yna, dim ond cyrsiau sy’n arwain at y fersiynau cymeradwy o’r cymhwyster hwn, yn hytrach na chymwysterau tebyg nad ydynt wedi’u cymeradwyo , y byddai ysgolion a gynhelir, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith a ariennir yn gyhoeddus yn gallu eu cynnig. Unwaith y byddai cymwysterau cymeradwy cyfyngedig yn eu lle, ni fyddem yn dynodi na chymeradwyo cymwysterau tebyg.

13. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y prosesau yn ein polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2016 [ar gael yma]. Mae’r camau penodol y byddem yn eu cymryd, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, ar gyfer cymwysterau Adeiladu a’r Amgylchedd Adeiledig, wedi’u hamlinellu isod.

Pam rydym yn ystyried y dylai fod cymwysterau newydd, cyfyngedig?

14. Yn yr adroddiad, rydym yn egluro pam rydym o’r farn bod angen cymwysterau newydd ac yn nodi’r manteision a’r anfanteision sy’n gysylltiedig â chomisiynu cymwysterau newydd, yn hytrach na dilyn y prosesau diwygio sy’n mynd rhagddynt mewn mannau eraill yn y DU. Mae ein hadolygiad blaenorol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi dangos i ni mai dim ond os oes ganddynt y farchnad gyfan ar gyfer y cymwysterau hyn y gall cyrff dyfarnu ddatblygu cymwysterau newydd o ansawdd uchel i Gymru, sy’n cynnwys elfennau o asesu allanol. Mae hyn yn bennaf am fod nifer y dysgwyr yng Nghymru yn llawer is na nifer y dysgwyr yn Lloegr y caiff y rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol newydd eu datblygu ar eu cyfer.

Ar ba seiliau penodol y byddem yn penderfynu ar y cyfyngiadau hyn?

Yn ein polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig, rydym yn nodi tair enghraifft o bryd y gallem benderfynu cyfyngu ar gymhwyster. Y rhain yw:

a. lle mae angen cynnwys penodol o ran cymwysterau yng Nghymru oherwydd gofynion cwricwlaidd neu bolisi datganoledig ac y byddai cyfyngiad yn cefnogi'r hyfywedd economaidd i gyrff dyfarnu ddatblygu cymwysterau o'r fath i Gymru;
b. lle mae angen trefniadau asesu penodol (gan gynnwys, er enghraifft, asesu drwy gyfrwng y Gymraeg) yng Nghymru oherwydd gofynion cwricwlaidd neu bolisi datganoledig ac y byddai cyfyngiad yn cefnogi'r hyfywedd economaidd i gyrff dyfarnu ddatblygu cymwysterau o'r fath i Gymru; a
c. lle mae Cymwysterau Cymru yn nodi bod yr anghysondeb rhwng y gwahanol ffurfiau presennol ar yr un cymhwyster yn sylweddol ac yn achosi problemau.

15. Yn yr adolygiad sector, gwnaethom nodi bod bylchau sylweddol yn y cynnwys y mae cyflogwyr yng Nghymru yn awyddus iddynt gael eu llenwi, ac nad oes gennym unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddent yn cael eu datblygu fel rhan o'r gwaith diwygio sy'n mynd rhagddo yn Lloegr. Mae polisi prentisiaethau yng Nghymru wedi'i ddatganoli, ac mae'n rhaid i brentisiaethau yng Nghymru gynnwys cymwysterau a reoleiddir. Heb ymyrryd yn y ffordd rydym yn ei chynnig, mae risg na fydd unrhyw gymwysterau addas i'w defnyddio ar brentisiaethau yn y tymor hwy. Mae'r materion hyn yn unol â'r enghraifft gyntaf yn y polisi.

16. Mae angen ffurfiau newydd ar asesu ar gyfer y cymwysterau hefyd – nododd yr adolygiad sector nifer o bryderon ynglŷn â'r drefn asesu bresennol ar gyfer llawer o'r cymwysterau. O ystyried mai gwlad fach yw Cymru, o'i chymharu â'r farchnad ehangach y mae'r rhan fwyaf o gyrff dyfarnu yn rhan ohoni yn Lloegr, y tebyg yw y byddai ond yn fasnachol hyfyw i un corff dyfarnu ddatblygu cymwysterau cwbl newydd gyda chynnwys newydd a ffurfiau newydd ar asesu i Gymru. Mae hyn yn unol â'r ail enghraifft yn y polisi.

17. Nododd yr adolygiad sector fod anghysondebau yn y trefniadau asesu a sicrhau ansawdd rhwng gwahanol ffurfiau ar yr un cymhwyster yn broblem yn y sector hwn. Byddai symud i un gyfres o gymwysterau yn cael gwared ar y math hwn o anghysondeb. Mae hyn yn unol â'r drydedd enghraifft yn y polisi.

Pwy fyddai'n gallu gwneud cais i ddatblygu'r cymwysterau cyfyngedig?

18. Gallai unrhyw gorff dyfarnu wneud cais drwy gystadleuaeth agored i ddatblygu cymwysterau newydd. Byddai angen i gorff dyfarnu nad yw eisoes wedi'i gydnabod gan Cymwysterau Cymru wneud cais i gael ei gydnabod o fewn amser penodol fel un o amodau dyfarnu'r contract. Byddem hefyd yn gofyn i gyrff dyfarnu ddangos sut maent yn bodloni ein meini prawf, sy'n debygol o gynnwys gofyniad i gyflwyno tystiolaeth o hanes o lwyddiant a sicrwydd ariannol hirdymor.

19. Byddem yn barod i ystyried ceisiadau gan bartneriaethau, naill ai rhwng cyrff dyfarnu neu rhwng corff dyfarnu a chorff arall. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth glir o'r ffordd y byddai'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn gweithio o dan y fath amgylchiadau, gan gynnwys drwy nodi corff dyfarnu arweiniol. Rydym yn rhagweld y byddai'r contract yn cael ei ddyfarnu i'r corff dyfarnu arweiniol. Gallwn nodi gofynion eraill o ran sut y byddai hyn yn gweithio.

Beth fyddai'n digwydd i'r cymwysterau presennol ym maes adeiladu a gwasanaethau adeiladu?

20. Mae ein prif nodau yn ei gwneud yn ofynnol i ni ganolbwyntio bob amser ar anghenion dysgwyr. Pe baem yn defnyddio'r dull sy'n well gennym, byddai'n bwysig sicrhau na fyddai unrhyw ddysgwyr dan anfantais yn sgil datblygu'r gyfres newydd. Byddem yn gweithio gyda chyrff dyfarnu i geisio sicrhau bod cymwysterau etifeddol yn dal i fod ar gael i ddysgwyr nes bod y cymwysterau newydd yn barod, fel y gallent gwblhau eu rhaglenni dysgu. Fodd bynnag, ac eithrio at ddibenion cwblhau rhaglenni dysgu sy'n bodoli eisoes, ni fyddai unrhyw gymwysterau newydd sy'n ymdrin â'r un maes yn cael eu dynodi'n gymwys i gael eu defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir – a byddai'r dynodiadau presennol yn cael eu diddymu'n raddol. Fodd bynnag, byddem yn derbyn ceisiadau o hyd i ddynodi cymwysterau yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, lle mae'r rhain yn cwmpasu rhaglenni dysgu ychwanegol – megis ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus neu ar gyfer pynciau megis rheoli safle nad yw'r gyfres newydd yn eu cwmpasu. Hefyd, byddai'r cymwysterau sy'n bodoli eisoes ar gael o hyd, os ydynt yn dal i gael eu cynnig gan gyrff dyfarnu, i'w defnyddio ar raglenni dysgu nas ariennir yn gyhoeddus.

Beth am yr effaith ar ddarparwyr dysgu?

21. Mae'n bwysig iawn bod y broses o bontio i unrhyw gymwysterau newydd yn cael ei rheoli'n dda, a bod athrawon, hyfforddwyr, tiwtoriaid ac aseswyr yn deall y newidiadau a'u bod yn gallu paratoi i'w cyflwyno. Dros y cyfnod cyn cyflwyno unrhyw gymwysterau newydd, byddem yn ystyried ffyrdd y gellir helpu darparwyr dysgu drwy'r broses bontio.

22. Rydym wedi cynnal asesiad effaith rheoleiddiol i ystyried yr effeithiau amrywiol y byddai'r opsiynau sy'n well gennym (A2, B2 a C2) yn eu cael ar eraill. Ceir crynodeb o'r asesiad effaith hwn yn Atodiad 2.

23. Ar ôl i chi ddarllen drwy'r ddogfen ymgynghori hon a'i hatodiadau, ewch i'r ffurflen ymateb ar-lein yma lle y gallwch fynegi'ch barn ar yr ymgynghoriad hwn. Os ydych am baratoi'ch ymatebion ymlaen llaw, rhestrir y cwestiynau o'r ffurflen ymateb ar-lein yn Atodiad 3 isod. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Y camau nesaf

24. Ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben, bydd Cymwysterau Cymru yn dadansoddi'r ymatebion ac yn ystyried a ddylai barhau ag opsiynau A2, B2 a C2 neu beidio, ac a ddylai gynnig cyfyngu ar rai neu bob un o'r cymwysterau. Pe byddem yn penderfynu parhau ag opsiynau A2, B2 a C2, byddem yn ceisio cytundeb Gweinidogion Cymru i roi'r cymwysterau ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol. Byddem hefyd yn cyhoeddi hysbysiad o unrhyw gynnig i gyfyngu ar gymwysterau o dan Adran 14 o'r Ddeddf. Byddem yn ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r hysbysiad hwnnw cyn penderfynu a ddylid parhau â'r cyfyngiad. Pe byddem yn penderfynu parhau â'r cyfyngiad, byddem yn cyhoeddi'r penderfyniad hwn, ac yna'n dechrau'r broses ddethol a/neu gomisiynu i benodi corff (neu gyrff) dyfarnu i ddatblygu cymwysterau newydd i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

Atodiad 1: Enghreifftiau o ystyriaethau posibl wrth ddethol cyrff dyfarnu a gomisiynwyd

Gallu corfforaethol:
- Y gallu i ddatblygu a chyflwyno cymwysterau o safon uchel a deunyddiau ategol ar amser;
- Strwythur unrhyw gynnig i gydweithio;
- Hyfywedd ariannol.

Dylunio dulliau asesu arloesol:
- Yr ymrwymiad a'r gallu i gyflwyno atebion asesu cyfannol, effeithiol a hyblyg drwy ddefnyddio technoleg yn briodol.

Prosesau sicrhau ansawdd cadarn:
- Yr ymrwymiad a'r gallu i sicrhau ansawdd yn gyson ac yn effeithiol mewn canolfannau ledled Cymru.

Effeithlonrwydd a gwerth am arian:
- Y gallu a'r ymrwymiad i sicrhau bod cymwysterau yn gost-effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian;
- Chynigion i ddefnyddio arian dros ben er budd y system gymwysterau yng Nghymru.

Dealltwriaeth a phrofiad o'r sector:
- Hygrededd yn y sector – ym mhob agwedd ar adeiladu a gwasanaethau adeiladu yn ddelfrydol;
- Mynediad at arbenigedd priodol yn y sector.

Parodrwydd a'r gallu i fabwysiadu'r agenda ar gyfer diwygio cymwysterau yng Nghymru:
- Y gallu i gynnig cyfleoedd asesu, gweithgareddau sicrhau ansawdd ac adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg;
- Dealltwriaeth o gyd-destun a diwylliant Cymru a'r Gymraeg;
- Yr ymrwymiad a'r gallu i ddarparu cynnwys a dulliau asesu sy'n diwallu anghenion penodol dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru.

Dull gweithredu sy'n hyrwyddo cydweithredu ac ymgysylltu:
- Ymrwymiad i gynnwys cyrff proffesiynol, darparwyr dysgu, cyflogwyr a dysgwyr wrth ddatblygu cymwysterau a phrosesau ar gyfer gwneud hynny.

Cymorth i ganolfannau:
- Yr ymrwymiad a'r gallu i baratoi deunyddiau cymorth i ganolfannau ac adnoddau i ddysgwyr sy'n greadigol, yn arloesol, yn effeithiol ac yn ddwyieithog;
- Yr ymrwymiad a'r gallu i roi hyfforddiant effeithiol a chymorth ymatebol i ganolfannau yn lleol/rhanbarthol.

Ceisiadau gan gyrff sy'n dymuno cydweithredu:
- Trefniadau llywodraethu ar gyfer unrhyw gyd-fenter rhwng cyrff dyfarnu neu gorff dyfarnu a phartïon eraill, sy'n nodi'n glir y corff dyfarnu arweiniol.

Atodiad 2:
Crynodeb o'r materion a nodwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol o'r opsiynau sy'n golygu cyfyngu ar gymwysterau.

Rydym wedi cynnal asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r canlynol:

- Grwpiau y byddai cyfyngu ar gymwysterau yn effeithio'n uniongyrchol arnynt;
- Grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Yr iaith Gymraeg;
- Diogelu data;
- Hawliau plant.

Mae'r atodiad hwn yn crynhoi canfyddiadau allweddol yr asesiad o effaith hwnnw.

Grwpiau y byddai cyfyngu ar gymwysterau yn effeithio'n uniongyrchol arnynt:

- Cyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau ym maes Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yng Nghymru ar hyn o bryd;
- Darparwyr dysgu sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer cymwysterau yn y sector hwn;
- Dysgwyr a fyddai'n astudio ar gyfer y cymwysterau newydd o 2020 ymlaen;
- Dysgwyr a fyddai ran o'r ffordd drwy astudio ar gyfer cymwysterau etifeddol yn 2020;
- Cyflogwyr dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau yn y sector hwn, a dysgwyr y dyfernir y cymwysterau hyn iddynt;
- Chyrff yn y sector sydd â diddordeb yn y cymwysterau, megis CITB.

Grŵp	Effaith gadarnhaol	Effaith negyddol	Camau gweithredu awgrymedig i liniaru effaith negyddol
Cyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau ym maes Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yng Nghymru ar hyn o bryd.	Byddai darpariaeth dysgu a ariennir ar gael i'r corff neu'r cyrff dyfarnu llwyddiannus yn unig, a byddai/ byddent yn mynd ati'n hyderus i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu cymwysterau newydd.	Byddai cyrff dyfarnu sydd ar hyn o bryd yn dyfarnu cymwysterau sy'n cael eu disodli, ond na wnaethant ennill contract consesiwn, yn colli busnes yng Nghymru. Efallai y bydd effeithiau canlyniadol ar fusnes arall yr oedd ganddynt â chanolfannau sy'n newid i'r corff dyfarnu llwyddiannus.	Byddai Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn glir ei fod yn croesawu ceisiadau gan gyrff dyfarnu sy'n gweithredu mewn partneriaeth (ar yr amod bod atebolrwydd yn glir). Gallai hyn roi cyfle i gyrff dyfarnu fanteisio ar eu cryfderau unigryw. Yn achos y rhan fwyaf o gyrff dyfarnu, mae'r gyfran o'u busnes yn y sector hwn yng Nghymru yn cyfrif am gyfran fach iawn o'u busnes ehangach.

Grŵp	Effaith gadarnhaol	Effaith negyddol	Camau gweithredu awgrymedig i liniaru effaith negyddol
Darparwyr dysgu sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer cymwysterau yn y sector hwn.	Byddai darparwyr dysgu yn cael budd o'r dulliau asesu gwell sy'n deillio o'r cymwysterau newydd. Byddai pob rhaglen ddysgu a ariennir yn gyhoeddus yn dilyn yr un cymhwyster, gan wneud dewisiadau yn gliriach a hwyluso cyfuno a/neu gyfnewid adnoddau.	Byddai angen i ddarparwyr dysgu ymaddasu i'r newidiadau ac efallai y byddant yn amharod i roi'r gorau i'w cymwysterau presennol – neu i newid cyrff dyfarnu.	Byddai rhaglen rheoli newid a datblygu'r gweithlu yn cael ei threfnu er mwyn helpu i ddatblygu'r cymwysterau newydd arfaethedig. Byddai'r contract â chyrff dyfarnu a gomisiynwyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu gynorthwyo canolfannau gyda'r trefniadau gweinyddol ac ymarferol ar gyfer newid, lle y bo angen. [Byddem yn disgwyl na fyddai hyn yn arwain at unrhyw gostau uniongyrchol, neu fawr ddim costau uniongyrchol, i ddarparwyr dysgu].
Dysgwyr a all fod yn astudio ar gyfer y cymwysterau newydd o 2020 ymlaen.	Byddai dysgwyr yn cael budd o gymwysterau newydd sydd wedi'u cynllunio'n ofalus i ddiwallu eu hanghenion, gyda llwybrau dilyniant clir i gyflogaeth ac addysg uwch a dulliau asesu mwy effeithlon a hygyrch. Byddai dysgwyr yn gallu astudio ar gyfer pob cymhwyster newydd drwy gyfrwng y Gymraeg os byddant yn dewis gwneud hynny.	Mae'n bosibl y gall dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau newydd am y tro cyntaf deimlo weithiau eu bod dan anfantais o'u cymharu â chohortau dilynol wrth i'r gweithlu dysgu ac asesu ymgyfarwyddo. Efallai y byddai dysgwyr sy'n astudio ar gyfer y cymwysterau newydd yn pryderu na fyddai eu cymwysterau yn cael eu cydnabod gan gyflogwyr mewn rhannau eraill o'r DU.	Byddai'r rhaglen rheoli newid yn sicrhau bod darparwyr dysgu wedi'u paratoi'n dda, a bod ganddynt adnoddau priodol, i gefnogi dysgwyr sy'n astudio ar gyfer y cymwysterau newydd am y tro cyntaf. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais annheg o'u cymharu ag ymgeiswyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau etifeddol. Byddai Cymwysterau Cymru yn gweithio gyda chyrff yn y sector i hyrwyddo gwerth a chludadwyedd y cymwysterau newydd mewn rhannau eraill o'r DU.

Grŵp	Effaith gadarnhaol	Effaith negyddol	Camau gweithredu awgrymedig i liniaru effaith negyddol
Dysgwyr a fydd ran o'r ffordd drwy astudio ar gyfer cymwysterau etifeddol yn 2020.		Efallai y bydd dysgwyr yn ansicr, ymhlith cyhoeddusrwydd i'r cymwysterau newydd, p'un a allant gwblhau eu cymwysterau – ac a fyddai gwerth arnynt.	Câi trefniadau eu gwneud i sicrhau y byddai cymwysterau etifeddol yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni a ariennir ar gyfer dysgwyr yr oedd angen iddynt gwblhau cymwysterau. Wrth gyfathrebu, rhaid bod yn ofalus er mwyn peidio â chael effaith andwyol ar ddysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau etifeddol.
Cyflogwyr dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau yn y sector hwn, a dysgwyr y dyfernir y cymwysterau hyn iddynt.	Câi unrhyw gyfres newydd o gymwysterau ei chynllunio i asesu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar gyflogwyr – a rhoi ffurfiau mwy effeithlon o asesu na'r gyfres bresennol. Byddai cyflogwyr yn gallu bod yn fwy hyderus ynglŷn â chymhwysedd dysgwyr sydd â chymwysterau sy'n gwneud cais iddynt.	Ar y dechrau, byddai'r cymwysterau newydd yn anghyfarwydd i gyflogwyr y byddai angen iddynt ddeall sut maent yn cyfateb i gymwysterau cynharach – gan ei bod yn bosibl y byddai ymgeiswyr yn cyflwyno'r ddwy ffurf. Efallai y bydd angen i ymwneud cyflogwyr â chynnal a chefnogi dulliau asesu newid hefyd.	Byddai cyfathrebu â chyflogwyr a deunydd cyfathrebu i gyflogwyr ynglŷn â'r hyn y mae'r cymwysterau yn ei olygu yn bwysig – a hefyd ymgysylltu â chyflogwyr er mwyn eu helpu i ddeall eu rôl yn y gwaith o gefnogi dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau tra eu bod yn gweithio.

Grŵp	Effaith gadarnhaol	Effaith negyddol	Camau gweithredu awgrymedig i liniaru effaith negyddol
Cyrff yn y sector sydd â diddordeb yn y cymwysterau (er enghraifft, CITB).	Byddai cyrff yn y sector yn gallu cyfrannu at y gwaith o ddatblygu unrhyw gyfres newydd o gymwysterau, a byddent yn gallu bod yn fwy hyderus ynghylch cymhwysedd dysgwyr sy'n cyflwyno cymwysterau gyda'r nod o gofrestru (lle y bo'n gymwys).	Efallai y bydd cyrff yn y sector yn wynebu heriau o ran rheoli gwybodaeth a disgwyliadau ynglŷn â chymwysterau etifeddol a chymwysterau newydd – gan gynnwys sut maent yn berthnasol i ofynion cofrestru.	Byddai Cymwysterau Cymru yn parhau i ymgysylltu'n agos â chyrff yn y sector wrth ddatblygu'r cymwysterau ac yn sicrhau y caiff cludadwyedd y cymwysterau i rannau eraill o'r DU ei hyrwyddo.
Darparwyr profion arbenigol y diwydiant megis GasSafe.	Byddai lle o hyd i brofion arbenigol sy'n dal i gael eu defnyddio o fewn y fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru.	Dim.	Ddim yn gymwys.

Grŵp	Effaith gadarnhaol	Effaith negyddol	Camau gweithredu awgrymedig i liniaru effaith negyddol
Cyflogwyr â dysgwyr yng Nghymru a Lloegr.	Drwy gwmpasu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, bydd unrhyw gymwysterau newydd yn sicrhau bod dysgwyr yr un mor gymwys yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r model asesu ar gyfer prentisiaethau yn annhebyg i fodelau asesu 'Trailblazer' arferol. Drwy sicrhau bod cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol ar gael fel rhan o'r brentisiaeth, bydd cyflogwyr yn gallu darparu prentisiaethau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.	Bydd rhai o'r trefniadau asesu ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n cael eu hasesu a/neu eu hariannu yng Nghymru yn wahanol i'r rhai sy'n cael eu hasesu a/neu eu hariannu yn Lloegr. Gallai hyn arwain at faich gweinyddol ac, o bosibl, rywfaint o ddryswch.	Gan ei bod yn debygol y bydd angen i brentisiaid adeiladu yn Lloegr astudio ar gyfer cymwysterau NVQ hefyd nawr, mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gofynion cyn mynediad yng Nghymru hefyd yn debygol o fod yn dderbyniol i'w defnyddio yn Lloegr. Mae'r trefniadau arfaethedig ar gyfer prosiect sy'n seiliedig ar waith, trafodaeth a phrawf gwybodaeth ar-lein yn gosod llai o faich asesu ac, mewn rhai ffyrdd, yn adlewyrchu'r asesiadau terfynol y bydd angen eu sefyll yn Lloegr. Bydd angen cyfathrebu'n glir â chyflogwyr a dysgwyr a chyflwyno rhaglenni rheoli newid.

Nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Ystyriwyd pob un o'r nodweddion hyn o ran unrhyw effaith benodol sy'n deillio o'r cynigion ar ddysgwyr sydd â'r nodweddion hyn ac o ran unrhyw effaith anuniongyrchol ehangach sy'n deillio o'r cynigion ar bobl eraill sydd â'r nodweddion hyn. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sydd ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig.

Nodwedd	Effaith gadarnhaol
Anabledd	Dysgwyr: mae natur generig dulliau asesu prentisiaid, a'r gallu i'w haddasu ar gyfer y rôl gyflogaeth benodol dan sylw, yn debygol o leihau'r tebygolrwydd na fydd dysgwyr ag anableddau yn gallu darparu tystiolaeth ar gyfer rhannau o'r cymhwyster.
Rhywedd	Gan fod cyfran sylweddol fwy o ddynion na menywod yn astudio ar gyfer cymwysterau yn y sector hwn, yna byddai mwy o ddynion yn cael budd o'r newidiadau arfaethedig i'r cymhwyster – ond mae'r newidiadau'n annhebygol o gael effaith wahanol ar ddysgwyr sy'n fenywod neu'n ddynion.
Hil	Dim effaith benodol
Oedran	Dylai'r newidiadau arfaethedig i'r cymhwyster fod o fudd i ddysgwyr o bob oedran (dros 14 oed).
Ailbennu rhywedd	Dim effaith benodol
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim effaith benodol
Priodas a phartneriaethau sifil	Dim effaith benodol
Pregnancy and maternity	Dim effaith benodol
Religion belief or	Dim effaith benodol

Yr iaith Gymraeg

Nodwyd yr effeithiau cadarnhaol canlynol ar yr iaith Gymraeg fel rhai sy'n debygol os caiff y cynnig ei fabwysiadu:

- Byddai'n ofynnol i'r holl gymwysterau a gomisiynwyd fod ar gael i'w hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i ddysgwyr sy'n dymuno cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg bod modd astudio ar gyfer pob un o'r cymwysterau sydd ar gael yn y ffordd hon. Byddai'r union gymwysterau ar gael i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg â dysgwyr sy'n siarad Saesneg;
- Byddai cael un corff dyfarnu ar gyfer pob cymhwyser yn helpu i ddefnyddio aseswyr a staff sicrhau ansawdd sy'n siarad Cymraeg mewn ffordd fwy effeithlon;
- Byddai'r broses rheoli newid a gynigir yn rhoi amser a chymorth i ddarparwyr dysgu a chyrff dyfarnu baratoi ar gyfer gweithredu'r cymwysterau newydd – gan gynnwys datblygu gwasanaethau ac adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg.

Diogelu data

Gall unrhyw broses gomisiynu olygu bod yn rhaid i gyrff dyfarnu roi mwy o wybodaeth i Cymwysterau Cymru nag y bu'n rhaid iddynt ei rhoi'n flaenorol – a gall rhywfaint o'r wybodaeth hon fod yn fasnachol gyfrinachol. Byddai Cymwysterau Cymru yn storio'r holl ddata o'r fath a dderbyniwyd yn ddiogel a byddai'n rhoi prosesau cadw a gwaredu diogel priodol ar waith er mwyn diogelu data o'r fath i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith a chyfyngu ar y defnydd a wneir o'r data i'r dibenion a fwriadwyd.

Hawliau plant

Yn ein hadolygiad sector, roeddem yn awyddus i glywed lleisiau plant a phobl ifanc ar ein cam 'dadansoddi'. Drwy grwpiau ffocws, gwrandawyd ar fwy na 900 o ddysgwyr – yr oedd llawer ohonynt dan 18 oed. Nodwyd y materion a godwyd ganddynt yn ein hadroddiad ac fe'u hystyriwyd wrth i ni lunio ein hymrwymiadau i weithredu – gan gynnwys yn ein hawgrym y dylem gomisiynu cymwysterau newydd.

Atodiad 3: Cwestiynau o'r ffurflen ymateb ar-lein

Mae'n bosib y bydd rhifau'r cwestiynau isod yn wahanol i rifau'r cwestiynau a ddefnyddir ar y platfform ar-lein.

Rhan 1: Amdanoch chi

C1
Enw

C2
Teitl eich swydd neu rôl berthnasol

C3
a) Eich sefydliad
Os nad ydych yn rhan o sefydliad, nodwch "ddim yn gymwys".

b) Pa fath o sefydliad yw hwn?
- i) Corff dyfarnu
- ii) Cyflogwr yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- iii) Corff proffesiynol neu gynrychiadol yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- iv) Coleg addysg bellach
- v) Ysgol a gynhelir
- vi) Prifysgol
- vii) Arall (disgrifiwch)

C4
A ydych yn ymateb ar eich rhan eich hun neu ar ran eich sefydliad?
- i) Rwy'n ymateb ar fy rhan fy hun.
- ii) Rwy'n ymateb ar ran y sefydliad a enwir uchod. Noder: Os byddwch yn dewis y blwch hwn, byddwn yn tybio bod gennych yr awdurdod i gyflwyno ymatebion i'w hystyried ar ran eich sefydliad.
  Os ydych yn ymateb ar eich rhan eich hun:

C5
A oes gennych ddiddordeb yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig? Oes/Nac
Os oes,

C6: A yw hyn:
Dewiswch gynifer ag sy'n gymwys.
- i) Drwy fy nghyflogaeth bresennol (fel y nodir uchod)
- ii) Drwy fy nghyflogaeth flaenorol
- iii) Fel aelod o gorff proffesiynol/arbenigol
- iv) Fel dysgwr presennol, darpar ddysgwr neu ddysgwr diweddar
- v) Fel rhiant dysgwr presennol, darpar ddysgwr neu ddysgwr diweddar
- vi) Arall (nodwch)

(Os mai C3b=i)

C7
A yw eich corff dyfarnu yn dyfarnu cymwysterau ym maes adeiladu a/neu wasanaethau adeiladu yng Nghymru ar hyn o bryd?

i) Ydy
ii) Nac ydy

C8
Cyn darllen yr adolygiad a'r ymgynghoriad hwn, a oeddech yn ymwybodol o Adolygiad Cymwysterau Cymru o'r Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig?

i) Oeddwn
ii) Nac oeddwn
iii) Ddim yn gwybod

C9
A wnaethoch gyfrannu at yr Adolygiad Sector?

i) Do
ii) Naddo
iii) Ddim yn gwybod

(Os mai C9=Do)

C10
Sut y gwnaethoch gyfrannu at yr adolygiad?
Dewiswch bob un sy'n berthnasol

i) Cefais fy nghyfweld
ii) Es i i grŵp trafod
iii) Es i i gyflwyniad neu weithdy
iv) Es i i un o gyfarfodydd ffurfiol y Panel Cyfeirio Rhanddeiliaid neu fwy nag un cyfarfod o'r fath
v) Ymatebais i'r ymgynghoriad ar-lein
vi) Cynheliais weithgaredd arall mewn cysylltiad â'r adolygiad (nodwch)

C11
A ydych yn cytuno i'ch enw ac enw eich sefydliad gael eu defnyddio os byddwn yn cynnwys dyfyniad o'ch ymateb mewn unrhyw ddadansoddiad ysgrifenedig o'r ymatebion i'r ymgynghoriad?

i) Ydw
ii) Nac ydw
iii) Arall (nodwch)

Rhan 2 – eich ymateb i'r ymgynghoriad

Atebwch y cwestiynau canlynol fel sy'n briodol i chi neu eich sefydliad. Os nad ydych am ateb cwestiynau testun agored, nodwch "dim ymateb".

Maes Dysgu A

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r ddau opsiwn a ddisgrifir yn yr adroddiad o dan Maes Dysgu A.

C1

Yn eich barn chi, beth yw manteision ac anfanteision opsiwn A1 (Parhau i ddynodi cymwysterau presennol (a/neu gymwysterau newydd) fel rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed)? Amlinellwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y byddai (neu y gallai) opsiwn A1 eu cael arnoch chi, eich sefydliad, dysgwyr, cyflogwyr neu randdeiliaid eraill yn eich barn chi.

C2

Yn eich barn chi, beth yw manteision ac anfanteision opsiwn A2 (Datblygu meini prawf cymeradwyo er mwyn cymeradwyo un neu ragor o fersiynau o'r cymwysterau hyn i'w defnyddio yng Nghymru)? Amlinellwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y byddai (neu y gallai) opsiwn A2 eu cael arnoch chi, eich sefydliad, dysgwyr, cyflogwyr neu randdeiliaid eraill, yn eich barn chi.

C3

Nodwch yr opsiwn a ffefrir gennych. Gallai hyn gynnwys unrhyw ddull amgen arall rydych am ei argymell. Rhowch y rhesymau dros eich barn.

C4 (ar gyfer cyrff dyfarnu'n unig)

Amlinellwch eich barn o ran p'un a fyddai eich sefydliad yn debygol o gyflwyno cymwysterau presennol (yn amodol ar fân addasiadau i adlewyrchu gofynion meini prawf cymeradwyo a'r angen i asesu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg):

i) Os nad oedd unrhyw gyfyngiad ar waith a byddai cynifer o fanylebau ag a fodlonai'r meini prawf yn cael eu cymeradwyo;

ii) Os oedd cyfyngiad ar waith a bod gwarant mai dim ond cais llwyddiannus a fyddai'n cael mynediad i'r farchnad am gyfnod penodol a all fod tua phum mlynedd.

Maes Dysgu B

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r ddau opsiwn a ddisgrifir yn yr adroddiad o dan Maes Dysgu B (darpariaeth addysg bellach amser llawn).

C5
Yn eich barn chi, beth yw manteision ac anfanteision opsiwn B1 (Anelu at ddynodi'r cymwysterau newydd – a ddatblygir yn Lloegr i'w defnyddio ar raglenni lefel T – i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru)? Amlinellwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y byddai (neu y gallai) opsiwn B1 eu cael arnoch chi, eich sefydliad, dysgwyr, cyflogwyr neu randdeiliaid eraill yn eich barn chi.

C6
Yn eich barn chi, beth yw manteision ac anfanteision opsiwn B2 (Comisiynu cymwysterau Sylfaenol a Dilyniant eang newydd, â llwybrau crefft-benodol, i'w defnyddio yng Nghymru)? Amlinellwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y byddai (neu y gallai) opsiwn B2 eu cael arnoch chi, eich sefydliad, dysgwyr, cyflogwyr neu randdeiliaid eraill yn eich barn chi.

C7
Nodwch yr opsiwn a ffefrir gennych. Gallai hyn gynnwys unrhyw ddull amgen arall rydych am ei argymell. Rhowch y rhesymau dros eich barn.

Maes Dysgu C

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r ddau opsiwn a ddisgrifir yn yr adroddiad o dan Maes Dysgu C (prentisiaethau).

C8
Yn eich barn chi, beth yw manteision ac anfanteision opsiwn C1 (Dynodi, lle y bo'n bosibl, asesiadau terfynol a ddatblygir i'w defnyddio yn Lloegr ar raglenni 'Trailblazer' a pharhau i reoleiddio cymwysterau NVQ lle mae'r rhain yn dal i gael eu cynnig)? Amlinellwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y byddai (neu y gallai) opsiwn C1 eu cael arnoch chi, eich sefydliad, dysgwyr, cyflogwyr neu randdeiliaid eraill yn eich barn chi.

C9
Yn eich barn chi, beth yw manteision ac anfanteision opsiwn C2 (Comisiynu cymhwyster generig, â phrofion gwybodaeth sy'n ymwneud â chrefftau penodol, i'w defnyddio ar brentisiaethau yng Nghymru, ar y cyd â phorth cyflogwr gwell)? Amlinellwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y byddai (neu y gallai) opsiwn C2 eu cael arnoch chi, eich sefydliad, dysgwyr, cyflogwyr neu randdeiliaid eraill yn eich barn chi.

C10
Nodwch yr opsiwn a ffefrir gennych. Gallai hyn gynnwys unrhyw ddull amgen arall rydych am ei argymell. Rhowch y rhesymau dros eich barn.

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'n cynigion yn fwy

cyffredinol

C11 (ar gyfer cynrychiolwyr cyrff dyfarnu'n unig)
A fyddai gan eich corff dyfarnu ddiddordeb mewn cyflwyno cynnig i ddatblygu a dyfarnu'r cymwysterau newydd a nodwyd o dan opsiynau B2 a C2?

C12
Rhowch sylwadau, os dymunwch, ar ein dadansoddiad o'r opsiynau gwahanol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein hadolygiad sector.
Os nad ydych am roi eich barn, nodwch "dim ymateb".

C13
Rhowch sylwadau, os dymunwch, ar y seiliau a nodwyd gennym dros gyfyngu ar y cymwysterau.
Os nad ydych am roi eich barn, nodwch "dim ymateb".

C14
A oes unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn?
Os nad ydych am roi eich barn, nodwch "dim ymateb".



Adeilad Q2,
Lôn Pencarn,
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373222

YouTube

© 2018 Cymwysterau Cymru